Annwyl Berchennog/Feddiannydd

**Gofynnwch Am/ Please Ask For**

| **Fy Nghyf/ My Ref:** | **Eich Cyf/ Your Ref:** | **Dyddiad/ Date:** |
|---|---|---|
| IF900-044 | | 24/02/2025 |

Annwyl Berchennog/Feddiannydd

**IF900-044 - Datblygiad Ysgol Newydd - Gwella Llwybrau Cerdded yn ardal Pont-y-clun - Gorchymyn Rheoli Traffig Arbrofol**

Efallai y byddwch chi'n cofio i'r Cyngor ymgynghori ar gynlluniau i gyflwyno amrywiaeth o gyfyngiadau a gwelliannau ledled Pont-y-clun, yng nghyffiniau'r datblygiad ysgol newydd.

Mae'r Cyngor wedi parhau i adolygu adborth ac argymhellion gafodd eu derbyn gan drigolion Pont-y-clun yn rhan o gyfnod yr Hysbysiad Arbrofol. Mae argymhelliad wedi'i wneud mewn perthynas â lleihau rhai o'r mesurau arfaethedig mewn sawl lleoliad arfaethedig.

Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor wedi cyflawni asesiadau technegol pellach mewn perthynas â'r mesurau arfaethedig ac mae wedi penderfynu bod modd lleihau'r cyfyngiadau aros arfaethedig o ganlyniad i'r disgwyliad y bydd cerbydau ger y cyffyrdd yn mynd yn araf. O ganlyniad, mae'r cyflymderau isel rhagamcanedig yma, yn lleihau'r pellteroedd stopio gweladwy gofynnol tua chyfeiriad y croesfannau anffurfiol.

Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu a monitro'r cynigion yma am weddill y cyfnod gwrthwynebu 6 mis o hyd (fydd yn dod i ben ar 16 Awst 2025). Yn y cyfamser, bydd y Cyngor yn adolygu'r gwrthwynebiadau / sylwadau sy'n cael eu derbyn gan gyflawni diwygiadau pellach o'r cyfyngiadau yn y lleoliad yma lle bo angen

**Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth**
**Highways, Streetcare and Transportation**
Llawr 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
Floor 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

Ffôn/Tel: 01443 425001

**Stephen Williams BSc(hons)MBA, GDipLaw, PGDipLegalPractice, MCIOB**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth | Director for Highways, Streetcare and Transportation Services**

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**
Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection

Er eich gwybodaeth, rwyf wedi cynnwys cynllun yn nodi'r diwygiadau fydd yn cael eu cyflawni'r wythnos yma (yr wythnos fydd yn dechrau ar 24 Chwefror 2025).

Dyma obeithio bod yr uchod o gymorth i chi.

Yn gywir,

D. Kelleher

Dylan Kelleher
Uwch Swyddog | Principal Officer
Uned Rheoli Traffig | Traffic Management

| CYM | ENG |
| --- | --- |
| Cilfach Aros Cyfyngedig Presennol | Existing limited waiting bay |
| Mynediad â Gatiau | Gated access |
| Gynt | Was |
| Nawr | Now |
| Y Briffordd<br>Pellter Stopio Gweladwy 20mya (25 metr) - defnyddio cerbydau Manual ar gyfer Cyfrifiadau Strydoedd 1 ar gyfer Strydoedd Preswyl | Main Road<br>20mph Stopping Sight Distance (25m) - using Manual for Streets 1 Calculations for Residential Streets |
| Y Ffordd Ochr<br>Pellter Stopio Gweladwy 10mya (11 metr) - defnyddio cerbydau Manual ar gyfer Cyfrifiadau Strydoedd 1 ar gyfer Strydoedd Preswyl | Side Road<br>10mph Stopping Sight Distance (11m) - using Manual for Streets 1 Calculations for Residential Streets |
| Cerbyd - Yn symud | Vehicle – Driven |
| Cerbyd - Wedi'i barcio | Vehicle - Parked |